Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Health and Social Care Committee

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

2 Mawrth 2015

Annwyl Gyfaill,

Ymgynghoriad ar y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)

Mae'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn galw am dystiolaeth ar egwyddorion cyffredinol y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru). I gynorthwyo ei waith, byddai'r Pwyllgor yn croesawu eich barn ar y pwnc hwn.

Mae'r Bil a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef ar gael ar wefan y Cynulliad:

http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=12110

Beth yw Bil?

Cyfraith arfaethedig yw Bil. Ar ôl i'r Cynulliad ystyried a phasio Bil, ac ar ôl i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol gan y Frenhines, mae'n dod yn Ddeddf Cynulliad.

Mae pedwar cyfnod i'r broses o ystyried Bil. Yng Nghyfnod 1, bydd pwyllgor yn ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil (sy'n cynnwys cymryd tystiolaeth ysgrifenedig a thystiolaeth ar lafar gan rai sydd â diddordeb a chan randdeiliaid); ac mae Cyfnod 1 hefyd yn cynnwys cael cytundeb y Cynulliad i'r egwyddorion cyffredinol hynny.

Bae Caerdydd
Bae Caerdydd
CF99 1NA
Ffôn / Tel: 0300 200 6354
E-bost / Email: SeneddIechyd@Cynulliad.Cymru/
SeneddHealth@Assembly.Wales
Trydar / Twitter: @seneddiechyd / @seneddhealth
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh

Beth yw rôl y Pwyllgor?

Rôl y Pwyllgor yw ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil a'r angen am ddeddfwriaeth, a chyflwyno adroddiad ar hyn. Mae'r Pwyllgor yn bwriadu ystyried meysydd fel:

- egwyddorion cyffredinol y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru), a'r angen am ddeddfwriaeth i ddarparu ar gyfer y canlynol:
    - diwygio'r broses reoleiddio ar gyfer gwasanaethau gofal a chymorth;
    - darparu fframwaith rheoleiddio sy'n ei gwneud yn ofynnol i reoleiddio gwasanaethau gofal a chymorth mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau;
    - diwygio'r drefn arolygu ar gyfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol;
    - ad-drefnu Cyngor Gofal Cymru a'i ailenwi'n Gofal Cymdeithasol Cymru, gan ehangu ei gwmpas; a
    - diwygio'r dull o reoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol;
- ai'r ffordd orau o gyflawni'r dibenion hyn yw drwy ddarpariaethau'r Bil;
- a fyddai unrhyw ddarpariaethau ychwanegol yn ofynnol er mwyn sicrhau bod y Bil yn gallu cyflawni'r dibenion hyn;
- y rhwystrau posibl i weithredu'r darpariaethau hyn ac a yw'r Bil yn eu hystyried;
- a oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil;

- goblygiadau ariannol y Bil fel y nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn y Memorandwm Esboniadol; a

- pha mor briodol yw'r pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth a chyhoeddi canllawiau ac i Gofal Cymdeithasol Cymru wneud rheolau.

Gwahoddiad i gyfrannu at yr ymchwiliad

Hoffai'r Pwyllgor eich gwahodd i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i gynorthwyo ei waith o graffu ar y Bil. Yn benodol, **byddai'n croesawu eich barn ar y cwestiynau a restrir yn Atodiad A i'r llythyr hwn**.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu tystiolaeth gan unigolion a sefydliadau. Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, dylech roi disgrifiad byr o rôl eich sefydliad.

Mae'r Cynulliad wedi ymrwymo i ddarparu gwybodaeth hygyrch i'r gynulleidfa ehangaf bosibl. Rhoddir canllawiau i dystion sy'n darparu tystiolaeth ysgrifenedig yn Atodiad B. Yn gyffredinol, gofynnwn i dystiolaeth gael ei chyflwyno'n ysgrifenedig gan ei bod yn arferol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi tystiolaeth a ddarperir i bwyllgor ar ein gwefan fel ei bod yn rhan o'r cofnod cyhoeddus. Fodd bynnag, gallwn hefyd dderbyn tystiolaeth ar ffurf sain neu fideo. Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg ac yn Saesneg, a gofynnwn i sefydliadau sydd â pholisïau / cynlluniau iaith Gymraeg ddarparu ymatebion dwyieithog, pan fo'n berthnasol, yn unol â'u polisïau ynghylch gwybodaeth i'r cyhoedd.

Os ydych am gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig ohoni i Seneddlechyd@Cynulliad.Cymru Fel arall, gallwch ysgrifennu at: Clerc y Pwyllgor, Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, CF99 1NA.

Dylai unrhyw dystiolaeth gyrraedd erbyn 16:00 ddydd Gwener 4 Ebrill 2015. Efallai na fydd yn bosibl ystyried unrhyw ymatebion a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn. Cofiwch nad yw sesiwn dystiolaeth lafar gyntaf y Pwyllgor gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ei chadarnhau eto. Os

hoffech i'ch tystiolaeth gael ei hystyried yn ystod y sesiwn hon, bydd angen iddi ddod i law erbyn dydd Gwener 13 Mawrth 2015. Pan fydd y dyddiadau wedi'u cadarnhau, caiff y wybodaeth ei chyhoeddi ar dudalen y Bil ar y we (linc ar gael uchod).

Mae croeso i chi rannu'r ymgynghoriad hwn ag unrhyw randdeiliaid, defnyddwyr gwasanaethau neu rwydweithiau, ac i gynnwys eu barn yn eich ymateb. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech anfon copi o'r llythyr hwn at unrhyw unigolyn neu sefydliad a hoffai gyfrannu at yr ymgynghoriad. Er gwybodaeth, amgaeir rhestr o'r rhai yr anfonwyd yr ymgynghoriad hwn atynt yn Atodiad C. Bydd copi o'r llythyr hwn hefyd ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol gyda gwahoddiad agored i gyflwyno barn:

http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgConsultationDisplay.aspx?ID=169

Datgelu gwybodaeth

Mae rhagor o fanylion am sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth yn www.assemblywales.org/cy/help/privacy/help-inquiry-privacy.htm. Gofynnwn ichi sicrhau eich bod wedi ystyried y manylion hyn yn ofalus cyn cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor. Fel arall, mae copi caled o'r polisi hwn ar gael drwy gysylltu â'r Clerc.

Yn gywir,

David Rees AC
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Atodiad A

I helpu'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ystyried y Bil Rheoleiddio ar Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru), byddai'r Pwyllgor yn croesawu'ch sylwadau ar unrhyw un o'r cwestiynau a ganlyn.

Cyffredinol

1. A ydych yn credu y bydd y Bil, fel y'i drafftiwyd, yn cyflawni'r **nodau** (sicrhau llesiant dinasyddion a gwella ansawdd gofal a chymorth yng Nghymru) sydd i'w gweld yn adran 3 (paragraff 3.15) o'r Memorandwm Esboniadol? A oes angen deddfwriaeth i gyflawni'r nodau hyn?
2. A oes unrhyw **rwystrau** posibl a allai ei gwneud yn anodd rhoi darpariaethau'r Bil ar waith ac, os felly, beth ydynt ac a yw'r Bil yn eu hystyried yn ddigonol?
3. A ydych yn credu bod unrhyw broblemau'n ymwneud â **chydraddoldeb** yn y darpariaethau presennol yn y Bil ar gyfer amddiffyn grwpiau gwahanol sy'n defnyddio gwasanaethau?
4. A ydych yn credu bod unrhyw faterion o bwys **wedi'u hepgor** o'r Bil neu a oes unrhyw elfennau rydych yn credu y dylid eu cryfhau?
5. A ydych yn credu y bydd unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil?

Darpariaethau yn y Bil

Hoffai'r Pwyllgor gael eich sylwadau ar ddarpariaethau yn y Bil, ac i ba raddau y byddant yn cyflawni'r dibenion a nodir. Er enghraifft:

6. Beth yw eich barn am y darpariaethau yn rhan 1 o'r Bil ar gyfer **rheoleiddio gwasanaethau gofal cymdeithasol**?
   Er enghraifft, mabwysiadu model rheoleiddio sy'n seiliedig ar wasanaethau, ymgysylltu â'r cyhoedd, a phwerau i gyflwyno system sgorio fel rhan o'r drefn arolygu ac i godi ffioedd.

7. Beth yw eich barn am y darpariaethau yn rhan 1 o'r Bil ar gyfer **rheoleiddio gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol**?
   Er enghraifft, ystyried y canlyniadau a gaiff defnyddwyr gwasanaethau wrth adolygu perfformiad gwasanaethau cymdeithasol, cynyddu

cyfranogiad y cyhoedd, a gosod dyletswydd newydd ar wasanaethau gofal cymdeithasol i baratoi adroddiadau ar y farchnad leol.

8. Beth yw eich barn ynghylch y darpariaethau yn rhan 1 o'r Bil ar gyfer datblygu system i **oruchwylio'r farchnad yn y sector gofal cymdeithasol?** *Er enghraifft, asesu cynaliadwyedd ariannol a chorfforaethol darparwyr gwasanaethau a pharatoi adroddiad ar sefydlogrwydd y farchnad yn genedlaethol.*

9. Beth yw eich barn ynghylch y darpariaethau yn rhan 3 o'r Bil i newid enw a chyfansoddiad **Cyngor Gofal Cymru** gan roi'r enw Gofal Cymdeithasol Cymru arno ac ehangu ei gylch gwaith?

10. Beth yw eich barn ynglŷn â'r darpariaethau yn rhannau 4-8 o'r Bil ar gyfer **rheoleiddio'r gweithlu**?
Er enghraifft, y cynigion i beidio ag ehangu'r broses gofrestru i gynnwys categorïau newydd o staff, i gael gwared ar gofrestru gwirfoddol ac i gyflwyno gorchmynion gwahardd.

11. Beth yw eich barn ar y darpariaethau yn rhan 9 o'r Bil i **gyrff rheoleiddio gydweithredu a chydweithio** ?

Pwerau dirprwyedig

Mae'r Bil yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau a chyhoeddi canllawiau, ac i Ofal Cymdeithasol Cymru wneud Rheolau.

12. Yn eich barn chi, a yw'r Bil yn cynnig cydbwysedd rhesymol rhwng yr hyn sydd wedi'i gynnwys ar **wyneb y Bil** a'r hyn y bydd **is-ddeddfwriaeth a chanllawiau'n** ymdrin â nhw?

Goblygiadau ariannol

13. Beth yn eich barn chi am **oblygiadau ariannol** y Bil fel y'u nodir yn rhannau 6 a 7 o'r Memorandwm Esboniadol?

Sylwadau eraill

14. A oes unrhyw **sylwadau eraill yr** hoffech eu cynnig ynglŷn ag adrannau penodol o'r Bil?

Atodiad B – Canllawiau ar gyfer tystion sy'n darparu tystiolaeth ysgrifenedig i bwyllgorau.

Mae'r Cynulliad wedi ymrwymo i ddarparu gwybodaeth hygyrch i'r gynulleidfa ehangaf bosibl. Diben y canllaw byr hwn yw cynorthwyo tystion sy'n cyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i bwyllgorau. Bydd hyn yn galluogi'r Cynulliad i ddarparu gwybodaeth a gyflwynwyd gan eraill mewn modd hygyrch.

- Defnyddiwch Gymraeg a Saesneg clir – gan osgoi jargon diangen.
- Defnyddiwch ffont sydd o leiaf maint 12.
- Defnyddiwch Lucida Sans, sy'n ffont clir sans seriff.
- Peidiwch ag ysgrifennu testun dros luniau, graffeg neu ddyfrnodau.
- Lliwiau a chyferbyniad – dylai'r ysgrifen gyferbynnu gymaint â phosibl â'r cefndir: ysgrifen dywyll ar gefndir golau, ac ysgrifen olau ar gefndir tywyll.
- Peidiwch â defnyddio priflythrennau bloc, a cheisiwch osgoi defnyddio print trwm, print italig a thanlinellu.

Lle bo modd, dylid darparu gwybodaeth gan ddefnyddio Microsoft Word er mwyn sicrhau hygyrchedd. Pan fyddwch chi'n cyflwyno sgan neu pdf, yn enwedig pan fyddant yn llythyrau neu'n dablau o wybodaeth, dylech gyflwyno'r ddogfen Word wreiddiol gyda hi.

Atodiad C – Ymgyngoreion ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus

Anfonwyd yr ymgynghoriad hwn at yr unigolion a'r sefydliadau canlynol. Os ydych yn gwybod am unigolion neu sefydliadau eraill a allai fod â diddordeb mewn ymateb i'r ymgynghoriad, a fyddech cystal â thynnu eu sylw at y llythyr hwn.

Yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil
y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol;

Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda
Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Ymddiriedolaeth GIG Felindre
Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

Cynghorau Iechyd Cymuned
Cyngor Iechyd Cymuned Abertawe Bro Morgannwg
Cynghorau Iechyd Cymuned Aneurin Bevan
Cyngor Iechyd Cymuned Betsi Cadwaladr
Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru
Cyngor Iechyd Cymuned Brycheiniog a Maesyfed
Cyngor Iechyd Cymuned Caerdydd a'r Fro
Cynghorau Iechyd Cymuned Cwm Taf
Cyngor Iechyd Cymuned Hywel Dda
Cynghorau Iechyd Cymuned Trefaldwyn

Llywodraeth Leol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Cyngor Sir Caerdydd
Dinas a Sir Caerdydd

Cyngor Sir Caerfyrddin
Cyngor Sir Ceredigion
Dinas a Sir Abertawe
Cyngor Bwrdeistref Conwy
Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Gwynedd
Cyngor Sir Ynys Môn
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Cyngor Sir Fynwy
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Cyngor Dinas Casnewydd
Cyngor Sir Penfro
Cyngor Sir Powys
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Cyngor Sirol Torfaen
Cyngor Bro Morgannwg
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Partneriaethau gofal cymdeithasol rhanbarthol
Canolbarth Cymru
Gogledd Cymru
De-ddwyrain Cymru
De-orllewin Cymru

Asiantaethau swyddogol
CAFCASS Cymru
Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Cyngor Gofal Cymru
Y Comisiwn Ansawdd Gofal
Comisiynydd Plant Cymru
Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Estyn
Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Yr Asiantaeth Diogelu Iechyd
Bwrdd Arferion Gorau ac Arloesi ym maes Iechyd a Lles
Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Y Sefydliad Iechyd Gwledig
Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru
Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE)
Canolfan Arloesedd Cenedlaethol y GIG
Yr Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd
Cyd-bartneriaeth Gwasanaethau'r GIG
Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Awdurdod Safonau Proffesiynol
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
Yr Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd (RQIA)
Y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth
Yr Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol
Swyddfa Archwilio Cymru

Penaethiaid Grŵp Iechyd yr Amgylchedd Cymru, Panel Technegol Iechyd a Diogelwch
Comisiynydd y Gymraeg
Pwyllgorau Cynghorol Iechyd Cymru
Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru
Pwyllgor Optomedrig Cymru
Pwyllgor Cynghorol Gwyddonol Cymru
Pwyllgor Cynghorol Therapïau Cymru

Cyrff a chymdeithasau proffesiynol

Academi'r Colegau Brenhinol Meddygol yng Nghymru
Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain (Cymru)
Cymdeithas Feddygol Prydain (Cymru)
Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi yng Nghymru
Coleg y Therapyddion Galwedigaethol
Fferylliaeth Gymunedol Cymru
Consortiwm Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol
Cymdeithas Gofal Cartref Cymru
GMB
Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal
Cymdeithas Cenedlaethol Swyddogion Prawf
Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd
Cymdeithas Darparwyr Maethu
Ledled y Wlad
Cymdeithas Cartrefi Nyrsio Cofrestredig
Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol Cymru
Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
Coleg Brenhinol y Ffisigwyr
Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant
Coleg Brenhinol y Seiciatryddion yng Nghymru
Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith
Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol
UNSAIN
Uno'r Undeb
Cymdeithas Gofal Cartref y Deyrnas Unedig
Cyngres yr Undebau Llafur Cymru
Conffederasiwn GIG Cymru
Grŵp Cynghorol Arweinwyr Ffisiotherapi Cymru
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)

Y Trydydd Sector

Action on Hearing Loss Cymru
Gweithredu dros Blant
Cofrestr Mabwysiadu y DU
Adoption UK
Materion eiriolaeth

Ar ôl mabwysiadu
Cynghrair Henoed Cymru
Age Connects Wales
Age Cymru
Age Cymru - Prosiect Fy Mywyd
Mewn Cartref
Ymddiriedolaeth AIDS Cymru
All Care
Grŵp Polisi Plant Cyrff
Anllywodraethol Cymru Gyfan
Fforwm Rhieni a Gofalwyr Cymru
Gyfan
Pobl yn Gyntaf Cymru
Cymdeithas Alzheimer
Anheddau Cyf
Gofal Arthritis yng Nghymru
Cymdeithas dros Newid Go Iawn
Cymru
Cymdeithas Spina Bifida a
Hydroceffalws yng Nghymru
Ategi Cyf
Barnardo's Cymru
Sefydliad Bevan
Black Association of Women
Stepping Out
Rhwydwaith Sector Gwirfoddol Pobl
Dduon Cymru
Canolfan Therapi Plant Bobath
Cymru
British Association for Adoption and
Fostering
Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain
yng Nghymru
British Geriatric Society Wales
Sefydliad Prydeinig y Galon yng
Nghymru
Sefydliad Prydeinig Anableddau
Dysgu
Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint
Y Groes Goch Brydeinig
Ymddiriedolaeth Ganser Cymru
Ymchwil Canser y DU
Gofal a Thrwsio Cymru
Rhwydwaith Cydgysylltu Gofal
Cymru
Care for the Family
Fforwm Gofal Cymru
Ymddiriedolaeth y Gofalwyr
Gyrfa Cymru
Cartrefi Cymru
Canolfan Byw'n Annibynnol
Plant yng Nghymru
Chwarae Teg
Cyngor ar Bopeth Cymru
Cynghrair Pensiynwyr y Gwasanaeth
Sifil
CLIC Sargent
Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru
Consortiwm Bywydau Cymunedol
Cymdeithas Ymarferwyr Cymunedol
ac Ymwelwyr Iechyd
Cyswllt Teulu
Contact the Elderly
Croesffyrdd - Gofalu am Ofalwyr
Gofal Galar Cruse Cymru
Cymorth Cymru
Yr Ymddiriedolaeth Ffibrosis Systig
Daybreak (Wales) Ltd.
Dementia UK

Cynghrair Iselder
Diabetes Cymru
Dignified Revolution
Hawliau Anabledd y DU
Anabledd Cymru
Plant Anabl yn Cyfri
Diverse Cymru
Cymdeithas Syndrom Down
Epilepsy Action Cymru
Epilepsi Cymru
FNF Both Parents Matter Cymru
Rhwydwaith Maethu Cymru
Cynghrair Geneteg y DU
Gingerbread
GISDA
Gofal
Cymdeithas y Teidiau a Neiniau
Hafal
Cymdeithas Gofal Hafod
Ymddiriedolaeth Haven
Independent Age
Sefydliad Joseph Rowntree
Grŵp ymgyrchu Justice for Jasmine
Anabledd Dysgu Cymru
Leonard Cheshire Disability
Lles Cymru
Cymorth Canser Macmillan
Gofal Canser Marie Curie
Mencap Cymru
Merched y Wawr
Mind Cymru
Rhwydwaith Menywod o
Leiafrifoedd Ethnig yng Nghymru
Undeb y Mamau yng Nghymru
Cymdeithas Clefyd Niwronau Motor
Cymdeithas Iselder Manig -
Sefydliad Deubegynol Cymru
Mudiad Ysgolion Meithrin
Multiple Sclerosis Society
Ymchwil Nychdod Cyhyrol
Nacro Cymru
Cymdeithas Genedlaethol
Awtistiaeth Cymru
Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant
Byddar yng Nghymru
Ffederasiwn Cenedlaethol
Pensiynwyr y Post Brenhinol a BT
Ffederasiwn Cenedlaethol
Sefydliadau'r Merched
Cymdeithas Genedlaethol
Pensiynwyr Cymru
Y Confensiwn Pensiynwyr
Cenedlaethol
Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid
Cenedlaethol
New Family Social
NIACE Dysgu Cymru
Y Gymdeithas Genedlaethol er Atal
Creulondeb i Blant Cymru
Cynghrair Eiriolaeth Pobl Hŷn
Un Llais Cymru
PACT
Y Ffederasiwn Rhieni
Parkinson’s UK Cymru*
Cymdeithas y Cleifion
Fforwm Pensiynwyr Cymru
Real Life Options
RNIB Cymru

Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol
Pobl Fyddar a Thrwm eu Clyw Cymru
Y Lleng Brydeinig Frenhinol
Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol Achub y Plant
Scope Cymru
Sense Cymru
Shared Lives Plus Cymru
Shelter Cymru
SNAP Cymru
Cynghrair Gofal Cymdeithasol a Llesiant Cymru
Stonewall Cymru
Y Gymdeithas Strôc
Ymddiriedolaeth Plant a Phobl Ifanc Cymru
Tai Pawb
Tenovus
Sefydliad Disability Can Do
Tros Gynnal Plant
Fforwm Strategaeth 50+ y Fro
Vision 21 (Cyfle Cymru)
Voices from Care
Cynghrair Iechyd Meddwl Cymru
Cynghrair Canser Cymru
Cynghrair Cynhalwyr Cymru
Rhwydwaith Gweithwyr Gofalwyr Cymru
Canolfan Cydweithredol Cymru
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Gwasnaeth Asesu Gyrru a Symudedd Cymru
Cynghrair Niwrolegol Cymru
Senedd Pobl Hŷn Cymru
Rhwydwaith Gweithwyr Gofalwyr Cymru
Cyngor Cymru i'r Deillion
Cyngor Cymru i Bobl Fyddar
Grŵp Diddordeb Nyrsio Arbennig Cymru ar Heneiddio a'r Person Hŷn
Cynllun Lleoli Oedolion Gorllewin Cymru
Cynghrair Ailalluogi Cymru
Cyngor Ffoaduriaid Cymru
Sefydliad Work
Ymddiriedolaeth Wellcome

Darparwyr gwasanaethau
Abacare Care Agency Ltd
Cartrefi Abbeyfield
All Care (S.Wales) Ltd
Cymdeithas Rheolwyr Tai Ymddeol
Brynawel Rehab
BUPA
Care in Hand
Centre for Housing and Support
Gwasanaethau Nyrsio a Gofal Cartref Cerecare
Sefydliad Tai Siartredig Cymru
Dimensions
Drive Network
EroSH (Essential Role of Sheltered Housing)
Family Housing Association Cymru
Grŵp Gwalia
Gwyddfor Residential Ltd
Gofal Hafod

Inclusive Lifestyles
Inspiration Lifestyle Services Ltd
KL Care Ltd
Linc Care
Cartrefi Melin
Y Gydmeithas Gofal Cenedlaethol
New Bridges Specialist Care Ltd
Cymdeithas Gofal Gogledd Cymru
Cartref Nyrsio Park House Court
Pen Y Bryn (Parc Pentywyn)
Grŵp Tai Pennaf
Cartref Gofal Penpergwm House
Cymdeithas Cartrefi Nyrsio Cofrestredig
Post Adoption Centre
Grŵp Seren
Cymdeithas Plant Dewi Sant
Steddy Ltd
Gofal Iechyd Tunstall
Cymdeithas Tai Unedig Cymru
Tai Cymoedd i'r Arfordir
West Wales Adult Placement Scheme

Y Maes academaidd

Ysgol y Gyfraith Aberystwyth
Ysgol y Gyfraith Bangor
Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Bangor
Ysgol y Gyfraith Caerdydd
Prifysgol Metropolitan Caerdydd, Ysgol y Gwyddorau Iechyd
Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd
Canolfan Ymchwil Gwaith a Gofal Cymdeithasol
Yr Athro Fonesig June Clark
Dr Margaret Flynn
Ysgol y Gyfraith Morgannwg
Y Sefydliad Ymchwil Meddygaeth a Gofal Cymdeithasol
Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd
Rhwydwaith Ymchwil a Datblygu Pobl Hŷn a Heneiddio
Grŵp Ymchwil Gwasanaethau Cymdeithasol
Ysgol y Gyfraith Abertawe
Canolfan Heneiddio Arloesol, Prifysgol Abertawe
Athrofa Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru
Yr Athro John Williams

Barnwrol a chyfreithiol

Y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd
Association of High Court Masters
Council of Her Majesty's Circuit Judges
Judicial College
Comisiwn y Gyfraith
Cymdeithas y Cyfreithwyr
Cymdeithas yr Ynadon

Prif Gwnstabliaid yr Heddlu

Dyfed Powys
Gwent
Gogledd Cymru

De Cymru

Prif Swyddogion Tân Gwasanaethau
Tân ac Achub Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Gogledd Cymru
De Cymru